Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION

MEHEFIN 2010

DYDDIAD	Nos Fercher, 16eg Mehefin
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU'N BRESENNOL	Elin Evans (cad), Gwilym V.Thomas, Jason Hunt, Neal Williams, Gwilym L.Williams, Nerys Evans
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Aeron M.Jones Bethan Williams, clerc

1. **Croeso**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau**
   Elwyn Jones

3. **Datgan Buddiant**
   AMJ – materion cynllunio

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion mis Mai fel rhai cywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Parc Glynllifon – sylwadau aelodau: yn gyffredinol roedd yr holl aelodau yn awyddus i weld y parc yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd, hefyd i wneud siwr fod cynllun marchnata da yn cael ei baratoi ar gyfer y safle. Awgrymwyd y canlynol gan rai unigolion: gwneud yr un math o beth ag sydd wedi'i wneud ym mharc Loisires yn Llydaw, cynnal mwy o gyngherddau ar raddfa lai na Faenol, gwahodd mwy o sefydliadau megis Sioe Caernarfon, Steddfod, ffeiriau ac yn y blaen i'r safle, maes carafannau.
   b. Llythyr gan Carter Jonas ynglyn â Cefnfaes – problemau cyfreithiol wedi codi gyda'r safle, ac mae Carter Jonas wedi addo dod nôl atom gydag ateb cyn gynted ag y bydd modd.
   c. Un Llais Cymru – cyfarfod blynyddol ardal Arfon/Dwyfor – nos Lun, 21ain Mehefin – 7pm Yr Institiwt, Caernarfon. Cytunodd Nerys Evans a'r clerc fynychu.
   d. Gorchymyn cau ffordd – ger Bryn Helen, Capel Bryn a Ty'n Mynydd Rhosgadfan
   e. Pont Caer Moel – nodwyd fod coed yn tyfu ar ochr y ffordd. Adroddodd GLW ei fod wedi cael gorchymyn gan Gyngor Gwynedd i dorri'r gwrychoedd ac y byddant yn adolygu sefyllfa'r coed ar y safle ar ôl y cyfnod nythu.
   f. Holwyd pam nad oes arian ar gael i roi llwybr troed i gae chwarae Rhosgadfan, sylwi fod Bontnewydd wedi cael llwybr ychwanegol. Aelodau o bwyllgor cae chwarae Rhosgadfan yn mynd i ymholi ymhellach ynglyn a chael grant gan Gyngor Gwynedd, ee grant llwybr saff yn y gymuned
   g. GVT – cwynion nad ydy bysus Seren Arian yn troi fyny yn Rhosgadfan weithiau, ee tua 11 bore mis diwethaf. Nodwyd sawl cwyn am yr amserlen. Clerc i

gysylltu â Malcolm Cowton, Cyngor Gwynedd i gael eglurhâd.
h.

6. **Derbyn Adroddiadau:**.

7. **Is-bwyllgorau:**
Is-bwyllgor Lein Bryngwyn i gyfarfod yn Steshion Rhostryfan am 7 o'r gloch nos Fawrth, 22ain i sefydlu beth yn union sydd angen ei wneud a cheisio cael prisio'r prosiect yn ei gyfanrwydd.

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	20,992.27
Cyfri Siec:	439.12
CYFANSWM	21,431.39

Taliadau:

Cyflog/costau clerc mis Mehefin	542.05
Cyllid y Wlad – dim yn daldwy mis yma	
Wyn Williams	180.00

Clerc yn ymddiheuro, roedd wedi gadael pecyn adref ddaeth drwy'r post ddydd Mawrth, oedd yn cynnwys: llythyr diolch gan Bwyllgor Cae Chwarae Rhosgadfan, anfoneb Siôn Owen (£1,200) a Chanolfan Llanwnda (£6) ynghyd a thri cais cynllunio: Cae Ciprys, Rhos Isaf – creu mynedfa newydd; Tyddyn Difyr, Rhosgadfan – adnewyddu'r ty presennol; Penlon, Rhosgadfan – estyniad – pe bai unrhyw un o'r aelodau angen gweld y ceisiadau, plis ffoniwch y clerc, ac mi drefnaf i ddod a'r copi atoch.

9. **Materion Cynllunio**

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:

C10A/0301/24/LL
Aber Alaw, Rhosgadfan – cais ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd siop i fod yn rhan o'r ty presennol
C10A/0198/24/LL – Cae'r Gors – ymestyn y swyddfa bresennol.
C10A/0266/24/CR – Cae'r Gors – cais adeilad rhestredig ar gyfer ymestyn y swyddfa.
C10A/0264/24/LL – Bryn Eithin, Rhostryfan - estyniad

Gohebiaeth:

a. Cymunrodd Elizabeth Hughes – agenda
b. Ombwdsmon Cymru – ymgynghoriad cwynion Cymru
c. SLCC – cynhadledd Cymru

NSPCC – cais am help ariannol - i'w drafod ym mis Chwefror yn ystod cyfarfod nawdd.

d. Cyngor Gwynedd – canllawiau cynllunio atodol mabwysiedig
e. Cyngor Gwynedd – ceisiadau llochesi bws. Gwrthodwyd ein cais i gael llochesi ger Gwelfor yn Rhosgadfan a ger Stâd Tanrallt yn Rhostryfan. AMJ yn mynd i ymholi ymhellach.
f. Swyddfa Archwilio Cymru – arfer da

10 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. NW – holi pwy sy'n gyfrifol am wagio biniau cae chwarae Rhosgadfan. Clerc i holi Cyngor Gwynedd.
b. Nododd NW fod pedair lori bin yn Rhosgadfan ar ddydd Mercher, 19eg o Fai. Clerc i holi beth oedd yn mynd ymlaen wrth Robert Lewis, Cyngor Gwynedd.
c. JH – twll yn y ffordd ger y gwter wrth ymyl Tai Bro Wyled a Tai Bodawen.
d. AMJ – adroddodd fod y Bwrdd Dwr yn bwriadu gwneud gwaith yn Dinas; nododd hefyd fod cwynion wedi dod i law ynglyn a chambyhafio yn ystod Gwyl Cwrw ar y Cledrau, mae wedi awgrymu y dylid cael rhai newidiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond roedd yn awyddus i nodi fod yr wyl yma'n llwyddiannus iawn ac roedd am geisio i'r newidiadau fod yn rhai positif iawn. Adroddodd hefyd fod problemau wedi codi ynglyn â'r dwr wyneb ffordd yn Rhos Isaf, a bod BT yn gwrthod derbyn mai arnyn nhw mae'r bai. Ynglyn a cae chwarae ysgol Rhostryfan, nododd ei fod yn ceisio cael y gwasanaeth prawf i ddod a bechgyn draw i wneud y gwaith peintio, ac i geisio cael cwmni mawr, megis B&Q etc, i roi Sadolin am ddim. Pe nai bai'n llwyddo i gael defnyddiau am ddim, cytunodd yr aelodau y dylai'r cyngor dalu amdanynt. AMJ hefyd i ymholi am gael mwy o risgl coed i'w roi ar y llawr.
e. GVT – nodi fod coed yn gordyfu ger 'Rafon Hen, Rhosgadfan a'u bod yn creu problemau gweledd
f. NE – mainc yn groeslon Saron – nodi fod y gwair yn hir ac yn flêr iawn. Clerc i gysylltu efo Siôn yn nodi fod rhai cwynion wedi dod i law ynglyn â safon y gwaith yn y fynwent ac o gwmpas y meinciau yn Saron a Rhos Isaf.
g. EE – gwir angen i'r Cyngor Sir ddod i dorri'r gwrychoedd yn yr ardal.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm

NODER CYFARFOD MIS NESA WYTHNOS YNGHYNT NAG ARFER – 14eg GORFFENNAF YN LLANWNDA